

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

HADAU, CYMRU

**Rheoliadau Iechyd Planhigion etc.
(Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7 o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ac maent yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1179) (Cy. 238) ("Rheoliadau 2018").

Mae'r Rheoliadau yn gwneud addasiadau, o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, i ffioedd penodol sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag arolygu mewnforio planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill.

Yn benodol—

- (a) mae'r ffi sy'n daladwy gan fewnforiwr mewn cysylltiad â phob tystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n mynd gyda llwyth yn cael ei rhannu'n ffioedd ar wahân sy'n daladwy mewn cysylltiad â gwiriad dogfennol a gwiriad adnabod (*rheoliad 2(2)(a) a (b)*);

- (b) mae Atodlen 1A newydd wedi ei mewnosod yn Rheoliadau 2018 i ddarparu ar gyfer ffioedd sy'n daladwy gan fewnforiwr mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol a gwiriad adnabod o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill sy'n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, y Swistir neu Liechtenstein, gan gynnwys y rheini sy'n ddarostyngedig i wiriadau llai manwl, gan adlewyrchu lefel yr arolygu, yn seiliedig ar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r planhigion hynny, y cynhyrchion planhigion hynny neu'r gwrthrychau eraill hynny (*rheoliad 2(2)(b) a (5)*); ac
- (c) mae Atodlen 2 wedi ei amnewid yn Rheoliadau 2018 i ddarparu ar gyfer ffioedd gostyngedig mewn cysylltiad â gwiriad adnabod o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill sy'n tarddu o drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, y Swistir neu Liechtenstein, gan adlewyrchu'r lefel bresennol o arolygu (*rheoliad 2(2)(b) a (6)*).

Nid yw'r ffioedd sy'n daladwy yn rhinwedd rheoliad 3(2A)(a) newydd Rheoliadau 2018 yn daladwy mewn cysylltiad â llwythi a fewnforir cyn 1 Mawrth 2022, mewn cysylltiad â phlanhigion penodol neu gynhyrchion planhigion penodol.

Mae'r ffioedd sy'n gymwys mewn cysylltiad â gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod llwythi o blanhigion penodol, cynhyrchion planhigion penodol neu wrthrychau eraill penodol o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir yn adlewyrchu cyfraddau amllder y gwiriadau hynny fel y'u nodir yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygio etc.) 2021 (O.S. 2021/426).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu esemptiad rhag talu ffioedd sydd fel arall yn daladwy mewn cysylltiad ag ardystio a gwasanaethau cyn-allforio o ran llwythi ffytoiechydol o dan amgylchiadau penodol. Mae'r esemptiad yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2022 (*rheoliad 2(3)*).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

HADAU, CYMRU

**Rheoliadau Iechyd Planhigion etc.
(Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Gwnaed

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7 o Atodlen 4 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno(2).

-
- (1) 2018 p. 16; gweler paragraff 8 o Atodlen 4 am ystyr "appropriate authority". Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) a pharagraffau 38 a 53(2) o Atodlen 5 iddi.
- (2) Mae'r cyfeiriad yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021 a deuant i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018

2.—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (ffioedd arolygu mewnforio)—

(a) yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) Y ffi sy'n daladwy gan fewnforiwr llwyth o drydedd wlad mewn cysylltiad â gwiriad dogfennol o bob tystysgrif ffytoiechydol neu dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer ailallforio sy'n mynd gyda'r llwyth yw £5.25.”

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Y ffioedd sy'n daladwy gan fewnforiwr llwyth o drydedd wlad mewn cysylltiad ag atebolrwydd am wiriad ffisegol a gwiriad adnabod y caniateir eu cynnal ar y llwyth (pa un a gynhelir unrhyw wiriad o'r fath ai peidio) yw—

(a) (yn ddarostyngedig i baragraffau (2B) i (2E)) yn achos llwyth sy'n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir, pan fo'r llwyth yn cynnwys planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o un neu ragor o ddisgrifiadau a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 1A, ac sy'n tarddu o wlad a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw—

(i) y ffi neu'r ffioedd a bennir yng ngholofn 3 o'r tabl hwnnw mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol o blanhigion neu gynhyrchion planhigion o bob disgrifiad o'r fath a geir yn y llwyth; a

(ii) y ffi neu'r ffioedd a bennir yng ngholofn 4 o'r tabl hwnnw mewn cysylltiad â gwiriad adnabod o blanhigion neu gynhyrchion planhigion o bob disgrifiad o'r fath a geir yn y llwyth;

(1) O.S. 2018/1179 (Cy. 238); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2019/1378 (Cy. 244), O.S. 2020/44 (Cy. 5), O.S. 2020/69 (Cy. 10) ac O.S. 2020/1628 (Cy. 342).

- (b) yn achos llwyth sy'n tarddu o unrhyw wlad arall—
- (i) yn achos llwyth o flodau wedi eu torri Atodlen 2 sy'n cynnwys un lot o flodau wedi eu torri—
 - (aa) y ffi a bennir yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 2 mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol o'r blodau wedi eu torri hynny; a
 - (bb) y ffi a bennir yng ngholofn 4 o'r tabl hwnnw mewn cysylltiad â gwiriad adnabod o'r blodau wedi eu torri hynny;
 - (ii) yn achos llwyth o flodau wedi eu torri Atodlen 2 sy'n cynnwys dau neu ragor o lotiau o flodau wedi eu torri—
 - (aa) ffi sy'n cyfateb i'r ffi uchaf a bennir yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 2 mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol o unrhyw un o'r lotiau hynny; a
 - (bb) y ffi a bennir yng ngholofn 4 o'r tabl hwnnw mewn cysylltiad â gwiriad adnabod sy'n cyfateb i'r ffi sy'n daladwy o dan is-baragraff (aa);
 - (iii) yn achos llwyth o ffrwythau neu lysiau Atodlen 2 sy'n cynnwys un lot o ffrwythau neu lysiau—
 - (aa) y ffi a bennir yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 2 mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol o'r ffrwythau hynny neu'r llysiau hynny; a
 - (bb) y ffi a bennir yng ngholofn 4 o'r tabl hwnnw mewn cysylltiad â gwiriad adnabod o'r ffrwythau hynny neu'r llysiau hynny;
 - (iv) yn achos llwyth o ffrwythau neu lysiau Atodlen 2 sy'n cynnwys dau neu ragor o lotiau o ffrwythau neu lysiau—
 - (aa) ffi sy'n cyfateb i'r ffi uchaf a bennir yng ngholofn 3 o'r tabl yn Atodlen 2 mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol

o unrhyw un o'r lotiau hynny; a

(bb) y ffi a bennir yng ngholofn 4 o'r tabl hwnnw mewn cysylltiad â gwiriad adnabod sy'n cyfateb i'r ffi sy'n daladwy o dan is-baragraff (aa);

(v) yn achos llwyth sy'n cynnwys—

(aa) planhigion neu gynhyrchion planhigion o unrhyw ddisgrifiad arall a bennir yn y tabl yng ngholofn 1 o Atodlen 2, neu

(bb) peiriannau neu gerbydau sydd wedi eu gweithredu at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth,

i'r graddau y maent (yn y naill achos neu'r llall) yn tarddu o wlad a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw, y ffi neu'r ffioedd a bennir yng ngholofnau 3 a 4 o'r tabl hwnnw mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol a gwiriad adnabod, yn y drefn honno, o'r planhigion neu'r cynhyrchion planhigion o bob disgrifiad o'r fath a geir yn y llwyth (ac eithrio unrhyw rai a bennir hefyd yn Atodlen 1), ac (i'r graddau y maent yn berthnasol) peiriannau neu gerbydau;

(vi) pan fo'r llwyth yn cynnwys planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o un neu ragor o'r disgrifiadau a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 1—

(aa) y ffi neu'r ffioedd a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw mewn cysylltiad â gwiriad ffisegol o blanhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill o bob disgrifiad o'r fath a geir yn y llwyth;

(bb) y ffi neu'r ffioedd a bennir yng ngholofn 3 o'r tabl hwnnw mewn cysylltiad â gwiriad adnabod o blanhigion, cynhyrchion

planhigion neu wrthrychau eraill o bob disgrifiad o'r fath a geir yn y llwyth.

(2B) Y ffioedd sy'n daladwy o dan baragraff (2A)(a) mewn cysylltiad ag atebolrwydd i gynnal gwiriad ffisegol a gwiriad adnabod o flodau wedi eu torri neu ffrwythau neu lysiau yw, ni waith faint o lotiau a geir yn y llwyth—

- (a) yn achos llwyth sydd ond yn cynnwys blodau wedi eu torri neu ond yn cynnwys ffrwythau neu lysiau, y ffioedd hynny sy'n daladwy mewn cysylltiad ag un lot o'r math o dan sylw;
- (b) yn achos llwyth sy'n cynnwys blodau wedi eu torri a ffrwythau neu lysiau, y ffioedd hynny sy'n daladwy mewn cysylltiad ag un lot o bob math.

(2C) Y ffioedd sy'n daladwy o dan baragraff (2A)(a) mewn cysylltiad ag atebolrwydd i gynnal gwiriad ffisegol a gwiriad adnabod o blanhigion neu gynhyrchion planhigion, i'r graddau y mae'r planhigion neu'r cynhyrchion planhigion o un categori perthnasol ac yn tarddu o'r un wlad ond yn dod o fewn dau neu ragor o'r disgrifiadau a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 1A, yw'r ffioedd uchaf o'r ffioedd a bennir mewn cysylltiad â phlanhigion neu gynhyrchion planhigion o unrhyw ddisgrifiad o'r fath.

(2D) At ddibenion paragraff (2C), ystyr "categori perthnasol", mewn perthynas â phlanhigion neu gynhyrchion planhigion, yw unrhyw un o'r categorïau a ganlyn o blanhigion neu gynhyrchion planhigion—

- (a) rhisgl;
- (b) bylbiau;
- (c) cormau;
- (d) planhigion a fwriedir ar gyfer eu plannu;
- (e) rhisomau;
- (f) hadau;
- (g) meithriniad meinwe;
- (h) cloron (ac eithrio cloron tatws).

(2E) Nid yw ffi yn daladwy o dan baragraff (2A)(a) mewn cysylltiad ag unrhyw lwyth a fewnforir cyn 1 Mawrth 2022, pan fyddai wedi bod yn daladwy mewn cysylltiad ag unrhyw blanhigion neu gynhyrchion planhigion a bennir yn Atodlen 2A a geir yn y llwyth hwnnw.”.

(3) Yn rheoliad 5A (gwasanaethau tystysgrifau allforio a gwasanaethau cyn-allforio: ffioedd)—

(a) Ar ddechrau paragraff (1), mewnosoder “Yn ddarostyngedig i baragraff (4A),”;

(b) Ar ôl paragraff (4), mewnosoder—

“(4A) Nid yw’r ffioedd a bennir yn Atodlen 4A yn daladwy mewn cysylltiad â llwyth sydd i’w gludo i Ogledd Iwerddon—

(a) gan berson sy’n gweithredu ac eithrio yng nghwrs busnes, pan na fo’r llwyth i’w roi ar y farchnad; neu

(b) i’w ddanfon i—

(i) gweithredwr proffesiynol y mae ei brif fan busnes yng Ngogledd Iwerddon; neu

(ii) unrhyw berson sy’n preswyllo yng Ngogledd Iwerddon, pan na fo’r llwyth i’w roi ar y farchnad na’i ddefnyddio at ddiben unrhyw fusnes.

(4B) Mae paragraff (4A) yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2022.”.

(c) ym mharagraff (5), yn y lle priodol, mewnosoder—

“ystyr “gweithredwr proffesiynol” yw unrhyw berson a lywodraethir gan y gyfraith gyhoeddus neu’r gyfraith breifat, sy’n ymwneud yn broffesiynol ag un neu ragor o’r gweithgareddau a ganlyn sy’n ymwneud â phlanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill, ac sydd â chyfrifoldeb proffesiynol amdanynt—

(a) plannu;

(b) bridio;

(c) cynhyrchu, gan gynnwys tyfu, lluosogi a chynnal;

(d) cyflwyno i Ogledd Iwerddon, symud o fewn Gogledd Iwerddon a symud allan o Ogledd Iwerddon;

(e) eu cynnig ar y farchnad;

(f) storio, casglu, anfon a phrosesu.”.

(4) Yn lle Atodlen 1 rhodder—

“ATODLEN 1

Rheoliad 3(1) a (2A)(b)(vi)

Ffioedd arolygu mewnforio: Llwythi sy'n tarddu o wledydd ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Colofn 3</i>
<i>Disgrifiad o'r Planhigyn, y cynnyrch planhigion neu wrthrych arall</i>	<i>Ffi: Gwiriad ffisegol (£)</i>	<i>Ffi: Gwiriad adnabod (£)</i>
Torion, egin blanhigion (ac eithrio deunydd lluosogi coedwigaeth), planhigion ifanc mefus neu lysiau	173.91	5.25
Llwyni, coed (ac eithrio coed Nadolig wedi eu torri), planhigion meithrinfa prenaidd eraill gan gynnwys deunydd lluosogi coedwigaeth (ac eithrio hadau)	182.38	5.25
Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron, a fwriedir ar gyfer eu plannu (ac eithrio cloron tatws)	205.04	5.25
Hadau, meithriniad meinwe	128.13	5.25
Planhigion eraill a fwriedir ar gyfer eu plannu, nas pennir yn unman arall yn y tabl hwn	182.38	5.25
Blodau wedi eu torri	42.75	5.25
Canghennau gyda deiliant, rhannau o goed conwydd (ac eithrio coed Nadolig sydd wedi eu torri)	33.99	5.25
Coed Nadolig wedi eu torri	119.64	5.25
Dail planhigion, megis perlysiâu, sbeisys a llysiâu deiliog	71.68	5.25
Ffrwythau, llysiâu (ac eithrio llysiâu deiliog)	53.10	5.25
Cloron tatws	156.69	5.25
Pridd a chyfrwng tyfu, rhisgl	119.64	5.25
Grawn	142.98	5.25
Planhigion eraill neu gynhyrchion planhigion eraill nas pennir yn unman arall yn y tabl hwn, ac eithrio coed fforestydd	22.73	5.25".

(5) Ar ôl Atodlen 1, mewnosoder yr Atodlen a ganlyn—

“ATODLEN 1A

Rheoliad 3(2A)(a)

Ffioedd arolygu mewnforio: llwythi sy'n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Colofn 3</i>	<i>Colofn 4</i>
<i>Planhigyn, cynnyrch planhigion neu wrthrych arall a'i genws (os yw'n gymwys)</i>	<i>Gwlad tarddiad</i>	<i>Ffi: Gwiriad ffisegol (£)</i>	<i>Ffi: Gwiriad adnabod (£)</i>

Torion, egin blanhigion (ac eithrio deunydd lluosogi coedwigaeth), planhigion ifanc mefus neu lysiau, nas bwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol⁽¹⁾

<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	173.91	5.25
-------------------	--------------------	--------	------

Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron, (ac eithrio cloron tatws), nas bwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol⁽¹⁾

<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	205.04	5.25
-------------------	--------------------	--------	------

Bylbiau, cormau, rhisomau, cloron, (ac eithrio cloron tatws), a fwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol⁽¹⁾

<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	20.50	0.52
-------------------	--------------------	-------	------

Hadau, nas bwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol⁽¹⁾

<i>Allium cepa</i> L.	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
-----------------------	--------------------	--------	------

<i>Allium porrum</i> L.	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
-------------------------	--------------------	--------	------

<i>Castanea</i> Mill.	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
-----------------------	--------------------	--------	------

<i>Capsicum</i> spp. L.	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
-------------------------	--------------------	--------	------

<i>Helianthus annuus</i> L.	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
-----------------------------	--------------------	--------	------

<i>Medicago sativa</i> L.	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
---------------------------	--------------------	--------	------

<i>Phaseolus cocineus</i>	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
---------------------------	--------------------	--------	------

<i>Phaseolus vulgaris</i> L.	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
------------------------------	--------------------	--------	------

<i>Solanum lycopersicum</i>	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
-----------------------------	--------------------	--------	------

L.			
----	--	--	--

<i>Solanum tuberosum</i> L.	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
-----------------------------	--------------------	--------	------

(Gwir hadau tatws)			
--------------------	--	--	--

Hadau llysiâu <i>Pisum</i>	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
----------------------------	--------------------	--------	------

<i>sativum</i> L. a <i>Vicia faba</i>			
---------------------------------------	--	--	--

L.			
----	--	--	--

Hadau planhigion olew a ffibr —

<i>Brassica napus</i> L.	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
--------------------------	--------------------	--------	------

<i>Brassica rapa</i> L.	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
-------------------------	--------------------	--------	------

<i>Sinapis alba</i> L.	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
------------------------	--------------------	--------	------

<i>Glycine max</i> (L.)	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
-------------------------	--------------------	--------	------

Merrill			
---------	--	--	--

<i>Linum usitatissimum</i> L.	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
-------------------------------	--------------------	--------	------

Hadau, a fwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol⁽¹⁾

<i>Allium cepa</i> L.	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
-----------------------	--------------------	------	------

<i>Allium porrum</i> L.	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
-------------------------	--------------------	------	------

<i>Castanea</i> Mill.	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
-----------------------	--------------------	------	------

<i>Capsicum</i> spp. L.	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
-------------------------	--------------------	------	------

<i>Helianthus annuus</i> L.	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
-----------------------------	--------------------	------	------

<i>Medicago sativa</i> L.	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
---------------------------	--------------------	------	------

<i>Phaseolus cocineus</i>	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
---------------------------	--------------------	------	------

<i>Phaseolus vulgaris</i> L.	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
------------------------------	--------------------	------	------

<i>Solanum lycopersicum</i>	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
-----------------------------	--------------------	------	------

L.			
----	--	--	--

<i>Solanum tuberosum</i> L.	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
-----------------------------	--------------------	------	------

(Gwir hadau tatws)			
--------------------	--	--	--

Hadau llysiâu <i>Pisum</i>	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
----------------------------	--------------------	------	------

<i>sativum</i> L. a <i>Vicia faba</i>			
---------------------------------------	--	--	--

L.			
----	--	--	--

Hadau planhigion olew a ffibr —

<i>Brassica napus</i> L.	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
--------------------------	--------------------	------	------

<i>Brassica rapa</i> L.	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
-------------------------	--------------------	------	------

<i>Sinapis alba</i> L.	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
------------------------	--------------------	------	------

<i>Glycine max</i> (L.)	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
-------------------------	--------------------	------	------

Merrill			
---------	--	--	--

<i>Linum usitatissimum</i> L.	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
Hadau eraill nas pennir yn unman arall yn y tabl hwn			
<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	3.84	0.15
Meithriniad meinwe, nas bwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol⁽¹⁾			
<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	128.13	5.25
Meithriniad meinwe, a fwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol⁽¹⁾			
<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	6.40	0.26
Planhigion eraill a fwriedir ar gyfer eu plannu (ac eithrio coed Nadolig sydd wedi eu torri), nas bwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol⁽¹⁾			
<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	182.38	5.25
Planhigion eraill a fwriedir ar gyfer eu plannu nas pennir yn unman arall yn y tabl hwn, a fwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol⁽¹⁾			
<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	18.23	0.52
Blodau wedi eu torri			
<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	1.28	0.15
Canghennau gyda deiliant, rhannau o goed conwydd ac eithrio rhisgl a choed Nadolig sydd wedi eu torri			
<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	1.02	0.15
Coed Nadolig wedi eu torri			
<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	3.58	0.15
Dail planhigion, megis perlyisiau, sbeisys a llyisiau deiliog			
<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	2.15	0.15
Ffrwythau neu lysiau			
<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	1.59	0.15
Cloron tatws			
<i>Solanum tuberosum</i> L. a fwriedir ar gyfer eu plannu (tatws hadyd)	Pob ⁽²⁾	156.69	5.25
<i>Solanum tuberosum</i> L. (tatws bwyta)	Gwlad Pwyl, Portiwgal neu Rwmania	78.34	2.62
<i>Solanum tuberosum</i> L. (tatws bwyta)	Sbaen	156.69	5.25
<i>Solanum tuberosum</i> L. (tatws bwyta)	Unrhyw un arall o Aelod- wladwriaethau' r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	4.70	0.15
Pridd a chyfrwng tyfu, rhisgl			
Rhisgl—			
<i>Castanea</i> Mill.	Pob ⁽²⁾	5.98	0.26
Conwydd (Pinales)	Pob ⁽²⁾	5.98	0.26
<i>Juglans</i> L.	Pob ⁽²⁾	5.98	0.26
<i>Pterocarya</i> Kunth.	Pob ⁽²⁾	5.98	0.26
Pridd a chyfrwng tyfu, rhisgl			
<i>Rhisgl pob genera nas pennir yn unman arall yn y tabl hwn</i>	Pob ⁽²⁾	3.58	0.15
Grawn			
<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	4.28	0.15
Planhigion neu gynhyrchion planhigion eraill nas pennir yn unman arall yn y tabl hwn, ac eithrio coed fforestydd, pridd a chyfrwng tyfu			
<i>Pob genera</i>	Pob ⁽²⁾	0.68	0.15

Peiriannau neu gerbydau sydd wedi eu gweithredu at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth

— Pob⁽²⁾ 5.98 0.26

⁽¹⁾ Mae “a fwriedir ar gyfer defnyddwyr terfynol” yn cynnwys deunydd sydd wedi ei becynnu’n glir ac yn barod i’w gyflenwi i ddefnyddwyr terfynol, ac y gellir adnabod ei fod yn barod i’w ddefnyddio gan weithwyr tirlunio neu contractwyr ar gyfer ei blannu yn safle terfynol y planhigion a phan fo angen pecynnu ychwanegol neu waith paratoi ychwanegol (ac eithrio lluosogi, neu dyfu pellach) cyn bod y planhigion ar gael i ddefnyddwyr terfynol.

⁽²⁾ ystyr “Pob” yw unrhyw un o Aelod-wladwriaethau’r UE, Liechtenstein neu’r Swistir.”.

(6) Yn lle Atodlen 2 rhodder—

“ATODLEN 2 Rheoliad 3(2A)(b)(i) i (v) a (3)

Ffioedd arolygu mewnforio: cyfraddau gostyngol ar gyfer llwythi sy’n tarddu o wledydd ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau’r UE, Liechtenstein neu’r Swistir

<i>Colofn 1</i> <i>Planhigyn,</i> <i>cynnyrch planhigion</i> <i>neu wrthrych arall</i> <i>a’i genws (os yw’n</i> <i>gymwys)</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Gwlad tarddiad</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Ffi: Gwiriad ffisegol (£)</i>	<i>Colofn 4</i> <i>Ffi: Gwiriad adnabod</i> <i>(£)</i>
Blodau wedi eu torri			
<i>Aster</i>	Zimbabwe	32.06	3.93
<i>Dianthus</i>	Columbia	1.28	0.15
	Ecuador	6.41	0.78
	Kenya	2.14	0.26
	Twrci	6.41	0.78
	Columbia	1.28	0.15
<i>Rosa</i>	Ecuador	0.43	0.05
	Ethiopia	2.14	0.26
	Kenya	4.28	0.52
	Tanzania	21.38	2.62
	Zambia	4.28	0.52
Canghennau gyda deiliant, rhannau o goed conwydd (ac eithrio coed Nadolig sydd wedi eu torri)			
<i>Phoenix</i>	Costa Rica	17.00	2.62
Ffrwythau			
<i>Carica papaya</i>	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau’r UE, Liechtenstein neu’r Swistir	2.66	0.26
<i>Cydonia</i>	Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop ⁽¹⁾ ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau’r UE, Liechtenstein neu’r Swistir	2.66	0.26

<i>Fragaria</i>	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.66	0.26
<i>Malus</i>	Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop ⁽¹⁾ ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.66	0.26
	Yr Ariannin	18.59	1.83
	Brasil	26.55	2.62
	Chile	2.66	0.26
	Seland Newydd	5.31	0.52
	De Affrica	2.66	0.26
<i>Persea Americana</i>	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.66	0.26
<i>Prunus</i>	Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop ⁽¹⁾ ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.66	0.26
	Yr Ariannin	39.83	3.93
	Chile	5.31	0.53
	Moroco	26.55	2.62
	Twrci	18.59	1.83
<i>Prunus ac eithrio prunus persica</i>	De Affrica	5.31	0.26
<i>Pyrus</i>	Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop ⁽¹⁾ ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.66	0.26
	Yr Ariannin	7.97	0.78
	Chile	7.97	0.78
	Tsieina	26.55	2.62
	De Affrica	5.31	0.53
<i>Ribes</i>	Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop ⁽¹⁾ ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.66	0.26
<i>Rubus</i>	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r	2.66	0.26

<i>Vaccinium</i>	Swistir		
	Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop ⁽¹⁾ ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.66	0.26
	Yr Ariannin	13.28	1.31
	Chile	5.31	0.53
	Periw	5.31	0.53
<i>Vitis</i>	Unrhyw drydedd wlad ac eithrio un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir	2.66	0.26
Llysiau			
<i>Solanum lycopersicon</i>	Yr Ynysoedd	2.66	0.26
	Dedwydd		
<i>Solanum melongena</i>	Moroco	2.66	0.26
	Twrci	7.97	1.31
Peiriannau neu gerbydau sydd wedi eu gweithredu at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth			
—	Unrhyw drydedd wlad	5.98	0.26

⁽¹⁾ Mae “drydedd wlad yn Ewrop” yn cynnwys Albania, Andorra, Armenia, Azerbaijan, Belarws, Bosnia-Herzegovina, Yr Ynysoedd Dedwydd, Ynysoedd Farøe, Georgia, Gwlad yr Iâ, Moldofa, Monaco, Montenegro, Gogledd Macedonia, Norwy, Rwsia (dim ond y rhannau a ganlyn: Y Rhanbarth Ffederal Canolog (Tsentralny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal y Gogledd-orllewin (Severo-Zapadny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal y De (Yuzhny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal Gogledd y Cawcasws (Severo-Kavkazsky federalny okrug) a Rhanbarth Ffederal y Folga (Privolzhsky federalny okrug), San Marino, Serbia, Twrci ac Ukrain.”

(7) Ar ôl Atodlen 2, mewnosoder yr Atodlen a ganlyn—

“ATODLEN 2A

Rheoliad 3(2E)

Rhestr o blanhigion neu gynhyrchion planhigion sy'n tarddu o un o Aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir sy'n ddarostyngedig i ffioedd ar gyfer gwiriadau ffisegol a gwiriadau adnabod o 1 Mawrth 2022

1. Hadau y cyfeirir atynt yn Atodlen 1A sy'n dod o fewn y disgrifiad “**Hadau eraill nas pennir yn unman arall yn y tabl hwn**”.

2. Blodau wedi eu torri.

3. Canghennau gyda deiliant, rhannau o goed conwydd ac eithrio rhisgl neu goed Nadolig sydd wedi eu torri.

4. Coed Nadolig wedi eu torri.

5. Dail planhigion, megis perlyisiau, sbeisys a llysiau deiliog.

6. Ffrwythau.

7. Llysiau.

8. Cloron tatws sy'n tarddu o unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE (ac eithrio Portiwgal, Gwlad Pwyl, Rwmania a Sbaen), Liechtenstein neu'r Swistir.

9. Rhisgl pob genera ac eithrio *Castanea* Mill, conwydd (Pinales), *Juglans* L a *Pterocarya* Kunth.

10. Grawn.

11. Planhigion neu gynhyrchion planhigion y cyfeirir atynt yn Atodlen 1A sy'n dod o fewn y disgrifiad "**Planhigion neu gynhyrchion planhigion eraill nas pennir yn unman arall yn y tabl hwn, ac eithrio coed fforestydd, pridd a chyfrwng tyfu**".

Enw

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad